

CYLCHGRAWN AR GYFER FFERMIO A CHOEDWIGAETH YNG NGHYMRU

cyswllt FFERMIO



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

Safleoedd Arddangos

Cyflwyniadau i brosiectau newydd
ar ein Safleoedd Arddangos

Monitro Wyau Ysgarthol mewn

Mamogiaid - Canfyddiadau Prosiect
Rheoli Parasitiaid Cyswllt Ffermio



Dau brosiect newydd ar waith ar Safleoedd Arddangos Llaeth Cyswllt Ffermio

Mae'r gwaith ar ddau brosiect eisoes yn mynd rhagddo ar ddau o Safleoedd Arddangos Llaeth Cyswllt Ffermio a lansiwyd ym mis Medi.

Safle Arddangos: ERW FAWR
- Ceredig Evans a'i deulu

Swyddog Technegol: Rhys Davies

Teitl y Prosiect: Cynyddu'r defnydd o laswellt wedi ei bori a llaeth o borthiant ar system laeth trwy'r flwyddyn

Cyflwyniad i'r prosiect:

Un agwedd allweddol y mae'r teulu Evans am ei wella ar Erw Fawr yw cyfanswm y cynnyrch o borthiant a glaswellt wedi ei bori gan eu buches Holstein o 250 sy'n lloea trwy'r flwyddyn. Gan fod Erw Fawr o fewn un o ardaloedd gorau Cymru am dyfu glaswellt, mae'r buchod yn Erw Fawr yn y sefyllfa ddefnyddiol i ddefnyddio'r cyflenwad helaeth hwn. Yn y gorffennol, roedd Ceredig yn cadw dau grŵp o fuchod wedi eu rhannu yn wartheg cynhyrchol a rhai llai cynhyrchol ar sail system padogau. Ond, roedd porthi byffer yn cyfyngu ar faint o laswellt oedd yn cael ei fwyta, ac yn aml yn gadael mwy o weddillion na'r 1,500kgDM/ha a ddymunid. Gan fod y dyrannu padogau yn cael ei wneud yn gyfan gwbl ar sail 'greddf' a'i weithredu gan dîm o staff â phrofiad amrywiol o ran rheoli buchod ar laswellt, mae cyfle mawr i wella'r asesu, dehongli a'r defnydd o'r glaswellt sydd ar gael.

Amcanion y Prosiect:

Ffocws y prosiect yn ystod hydref 2019 oedd mapio'r seilwaith a rhoi'r llwyfan pori ar feddalwedd rheoli glaswellt AgriNet. Defnyddiodd staff y fferm fesurydd plât hyd at ddiwedd Tachwedd i sicrhau bod y rownd olaf o bori gan y rhai sy'n cynhyrchu lleiaf yn gadael

rhywfaint ar ôl at y gwanwyn i droi iddo yn gynnar ym mis Mawrth. Bydd buchod cynhyrchol iawn yn llaetha ers hyd at 150 diwrnod yn cael eu cadw dan do trwy'r flwyddyn, gan sicrhau bod y silwair glaswellt a'r india corn gwerthfawr a safonol yn cael eu defnyddio yn effeithlon i gynhyrchu llaeth. Yn yr un modd dim ond porfa a dwysfwyd o safon uchel yn y parhwr fydd yn cael ei roi i fuchod cyfeb o fis Mawrth hyd fis Tachwedd. Gan ddefnyddio astudiaethau gwaelodlin a baratowyd gan Kite Consulting, gobeithir, hyd yn oed mewn buches Holstein sy'n lloea trwy'r flwyddyn, y gellir dangos ei bod yn bosibl cynyddu'r cynnyrch o laswellt sy'n cael ei bori trwy addasiadau ymarferol cymharol hawdd o ran rheolaeth, ymddygiad wrth bori a mesur glaswellt.

Y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a osodwyd:

- Cynyddu'r cynnyrch o borthiant wedi ei dyfu gartref
- Cynyddu'r defnydd o laswellt sydd wedi ei bori



Ffig 1. Seilwaith y fferm wedi ei fapio gan Presicion Grazing

Dechreuodd y swyddogion technegol llaeth Rhys Davies a Simon Pitt hwyluso gwaith yn Erw Fawr, Caergybi, Ynys Môn a Fferm Mount Joy yn Nhrefgarn, Sir Benfro.

Diben y ddau brosiect yw dangos dulliau a thechnoleg newydd yn gweithio mewn sefyllfaoedd ymarferol ar ffermydd gyda gwelliannau mesuradwy yn y dangosyddion perfformiad allweddol.

Safle Arddangos: MOUNT JOY FARM
- William Hannah a'i deulu

Swyddog Technegol: Simon Pitt

Teitl y Prosiect: Dethol gwell stoc cyfenwid mewn buches ar laswellt sy'n lloea yn y gwanwyn

Cyflwyniad i'r prosiect:

Mae brido gwell buchod mewn buchesi sy'n lloea mewn bloc yn y gwanwyn yn heriol gan fod llawer o fuchesi naill ai ddim ond yn cofnodi rhan o'r cynhyrchiant llaeth neu ddim yn cofnodi o gwbl. Ffrwythlondeb yw'r prif ymrwr dros y dewis, mae'n sicrhau bod cymaint o fuchod a heffrod â phosibl yn lloea o fewn naw wythnos i'w gilydd. Arweiniodd hyn at weld y cynnydd genetig o ran nodweddion cynhyrchu ac iechyd yn cael eu gymu yn unig gan ochr y tarw. Mae amlygu unigolion a grwpiau o fuchod benyw i fagu oddi wrthynt i ddangos gwelliant genetig parhaus yn allweddol i sicrhau bod y nifer gorau o Gilogramau o Solidau Llaeth yn cael eu cynhyrchu gan bob buwch, heb anghofio'r angen i loea bob gwanwyn.

Amcanion y Prosiect:

Bydd prosiect ar fuchesi William Hannah o 300 o fuchod Friesian math Seland Newydd yn canolbwyntio ar genoteipio cnewd cyfan o heffrod cyflo i ddedol yr unigolion i'w cadw a'r rhai i'w gwerthu fel rhai sydd dros ben. Yn y gorffennol, roedd eu dethol yn seiliedig ar ymddangosiad a dyddiad lloea, ond trwy ddefnyddio Adroddiad Genetig y Fuchesi, bydd heffrod yn cael eu gosod yn eu trefn gyda dibynadwydd cynyddol ar y

Mynegai Lloea yn y Gwanwyn (£SCI) sef y mynegai penodol ar gyfer y Deyrnas Unedig a ddefnyddir ar fuchesi sy'n lloea yn y gwanwyn. Bwriad y prosiect yw dangos bod teilyngdod genetig, sydd yn ddangosydd perfformiad allweddol system gan AHDB ac yn dangos cynnydd yn £SCI cyfartalog y fuchesi ar ddiwedd y prosiect tair blynedd. Bydd agwedd arall ar y gwaith ym Mount Joy yn canolbwyntio ar osod buchod a heffrod sy'n lloea yn eu trefn o ran effeithlonrwydd, gan ddefnyddio'r ffon fesur o Gilogramau o Solidau Llaeth a gynhyrchir i bob cilogram o bwysau byw (kgMS/kgLW) fydd yn cael ei wneud trwy bwysio'r buchod ar 100 diwrnod yn lloea a defnyddio cofnodion llaetha 305 diwrnod i gael cyfanswm y pwysau Braster a Phrotein. Unwaith eto, bydd targedu semen y mae ei ryw yn hysbys ar y buchod hyn yn sicrhau bod epil benyw o anifeiliaid effeithlon a ffrwythlon yn cael eu cadw yn y fuchesi.

Y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a osodwyd:

- Cynydd £SCI genetig y fuchesi
- kgMS/kgLW



Ffig 1. William Hannah, Mount Joy

LLINELL AMSER A CHERRIG MILLTIR:

Medi 2019

- Astudiaeth gwaelodlin
- Mapio'r seilwaith padogau presennol
- Sefydlu meddalwedd AgriNet
- Dechrau mesur gyda mesurydd plât
- Samlo pridd

Tachwedd 2019

- Dod a'r fuchesi i mewn a chau ardal bori y fferm
- Defnyddio stoc ifanc i reoli'r llwyfan porthiant trwy'r gaef
- Mesar y gorchudd wrth gau
- Gwerthuso anghenion hyfforddi staff

Chwefror 2020

- Mesar gorchudd ar y fferm wrth ddechrau pori
- Cynllunio ar gyfer troi allan – seilwaith a hyfforddi staff

Mawrth 2020

- Tro'i'r grŵp sy'n cynhyrchu ychydig allan i'r padogau gyda gorchudd o 2,800kgDM/ha
- Mesar a monitro gorchudd cyfartalog y fferm a'r gyfradd dyfu yn wythnosol

Mai 27 2020

- Diwrnod agored safle arddangos
- Mesar y glaswellt a dyfwyd a'r defnydd ohono
- kg o solidau llaeth a gynhyrchir fesul ha

Tachwedd 2020

- Adolygu'r prosiect
- Cyfanswm y glaswellt a dyfwyd ac a ddefnyddiwyd
- Gwerthusiad staff
- Cyfrifo'r cynnyrch o'r porthiant

LLINELL AMSER A CHERRIG MILLTIR:

Medi 2019

- Astudiaeth Gwaelodlin

Rhagfyr 2019

- Samlo meinwe heffrod cyflo i gael gwerthusiad genomig

Gwanwyn 2020

- Gwerthu heffrod cyflo dros ben
- Pwysio'r holl anifeiliaid sy'n lloea ar y cyfartaledd 100 diwrnod o laetha

Gaeaf 2020

- Trefnu buchod ar sail kgMS/kgLW i gynorthwyo wrth ddedol stoc dros ben a chynllun bridio'r flwyddyn ganlynol

Tachwedd 2019

- Gwerthuso cyfartaledd riant presennol gan ddefnyddio adroddiad genetig buches AHDB

Ionawr 2020

- Dychweliad y gwerthusiad genomig a dynodi'r anifeiliaid is eu nodweddion genetig

14 Gorffennaf 2020

- Diwrnod agored safle arddangos

Ionawr 2021

- Adolygiad prosiect

Safleoedd Arddangos Cig Coch Cyswllt Ffermio yn edrych ar leihau mewnbynnau a chynyddu allbwn

Bu Gwion Parry, un o'n Swyddogion Technegol Cig Coch, yn gweithio gyda'i ffermwyr Safle Arddangos i sefydlu prosiectau fydd yn ymdrechu i wella effeithlonrwydd eu busnes.

Safle Arddangos: BODWI, Mynytho, Pwllheli

Swyddog Technegol: Gwion Parry

Teitl y Prosiect:

Adolygu'r fenter teirw biff

Cyflwyniad i'r prosiect:

Ar hyn o bryd mae Bodwi yn rhedeg menter pesgi teirw biff o'u buches fagu Stabiliser pedigri. Ar hyn o bryd mae'r fferm yn pesgi hanner y lloeau gwryw gartref ar ddwysfwyd wedi ei brynu i mewn, a'r hanner arall ar gontract i lot porthi yn Selby, Swydd Efrog.

Gan fod prisiau dwysfwyd a biff wedi amrywio yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'n allweddol bod ffermwyr biff yn asesu effeithlonrwydd eu busnes, a dod o hyd i ffyrdd posibl o leihau costau cynhyrchu.

Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar leihau cost cynhyrchu yn y fenter teirw biff blwydd trwy edrych ar gael canran uwch o'r diet o gnydau a dyfir gartref, gan fanteisio ar rinweddau genetig yr anifeiliaid. Byddwn yn cofnodi cost tyfu cnydau penodol yn ogystal ag effaith y newid ar gyfradd stocio'r fferm a'i rheolaeth dros y tair blynedd nesaf.

Amcanion y Prosiect:

Prif amcan y prosiect yw cynnal effeithlonrwydd y fenter teirw biff wrth droi porthiant a lleihau cost y system. Bydd yr holl fewnbynnau yn cael eu

hadolygu, a bydd tyfu porthiant gartref yn cael ei dreialu trwy dyfu cnydau tir â'r nod o brynu llai o ddwysfwyd.

Y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a osodwyd:

- Cael y rhan fwyaf o'r protein a'r egni gofynnol i gynhyrchu teirw biff o gnydau wedi eu tyfu gartref
- Lleihau faint o ddwysfwyd a brynwyd



Daliad biff a defaid tir isel yw Bodwi, sydd wedi cael ei rhedeg gan y teulu Griffith ers pedair cenhedlaeth; maent yn gobeithio canfod ffyrdd o ostwng cost cynhyrchu. Yn Halghton Hall, Bangor Is-coed, y nod yw cynyddu cyfraddau cyfebu'r ŵyn benyw.



Safle Arddangos: HALGHTON HALL, Bangor Is-coed, Wrecsam

Swyddog Technegol: Gwion Parry

Teitl y Prosiect:

Sicrhau'r cyfraddau cyfebu gorau mewn ŵyn benyw

Cyflwyniad i'r prosiect:

Mae cyfyngiadau o ran maint ŵyn benyw, eu pwysau byw ac yn arbennig eu hoed yn debygol o gyfyngu ar y graddau y gellir bridio oddi wrthynt. Mae cyfraddau ffrwythlondeb ac epilgarwch ŵyn benyw yn is na rhai mamogiaid aeddfed. Mae hyn yn wir am bod ganddynt gyfraddau creu wyau is a mwy o'r embryonau yn marw. Mae Halghton Hall yn magu oddi wrth ŵyn benyw er mwyn gwella effeithlonrwydd y ddiadell. Nod y prosiect hwn yw darganfod y pwysau a'r cyflwr delfrydol wrth gyfebu i oen benyw, yn ogystal â dynodi elfennau allweddol wrth reoli y gellir eu haddasu i gynyddu cyfraddau cyfebu.

Amcanion y Prosiect:

Amcan allweddol y prosiect hwn yw darganfod y pwysau a'r cyflwr delfrydol wrth gyfebu i oen benyw yn Halghton Hall. Trwy'r astudiaeth gwaelodlin a gynhaliwyd ar y safle gwelwyd bod cyfradd gyfebu ŵyn benyw ar hyn o bryd yn 60%. Ond, trwy ddynodi'r strategaethau rheoli allweddol a all gael effaith ar gyfraddau cyfebu ŵyn benyw a'u gwella, y nod yw cynyddu cyfraddau cyfebu i >85% mewn tair blynedd.

Y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a osodwyd:

- Cynyddu cyfraddau cyfebu ŵyn benyw o 60% i >85% cyn pen tair blynedd o gychwyn y prosiect



David Lewis - Halghton Hall

LLINELL AMSER A CHERRIG MILLTIR:

BLWYDDYN 1

Byddwn yn defnyddio'r flwyddyn gyntaf fel meincnod er mwyn cael Dangosyddion Perfformiad Allweddol a dod o hyd i feysydd lle gallwn wella'r system bresennol.

BLWYDDYN 2

Byddwn yn cyflwyno barlys wedi ei dyfu gartref i'r diet pesgi ac yn cyfrifo'r effaith ariannol y bydd yn ei gael ar gost cynhyrchu ac hefyd yr effaith negyddol y bydd yn ei gael ar leihau'r gyfradd stocio er mwyn rhyddhau tir i dyfu barlys.

BLWYDDYN 3

Byddwn yn edrych yn ofalus ar y data a gasglwyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac yn ymgorffori'r wybodaeth a gafwyd yn y strategaeth reoli yn Bodwi. Gall hyn fod yn gynydd yn y cnydau a dyfir gartref, tyfu cnydau gwahanol i gyflenwi'r protein i'r diet, neu hyd yn oed ymdrin ag unrhyw problemau iechyd a all ddod i'r amlwg yn ystod dwy flynedd gyntaf y prosiect.

LLINELL AMSER A CHERRIG MILLTIR:

Awst
2019

DPA yn cael eu gosod
gan Kate Phillips, a
dechrau casglu data.

Sgario'r ŵyn
benyw

Amser ŵyna

Amser
diddyfnu

Diwrnod agored
16/07/2020

Sgôr cyflwr corff cyn
mynd at yr hwrdd
ac archwilio tethi a
dannedd. Fflyshio.

Nifer o ŵyn benyw
a gymerodd hwrdd
yn flwydd

Ionawr
2021

Monitro Wyau Ysgarthol mewn Mamogiaid

Yn aml bydd rôl cyfrif wyau ysgarthol, heblaw am ŵyn yn y tymor pori, yn cael ei anghofio. Bydd yr erthygl ganlynol yn amlinellu sut y mae cyfrif wyau ysgarthol yn fanteisiol hefyd wrth weithredu yn gywir i drin mamogiaid o gwmpas amser ŵyna, ac mae'n seiliedig ar ddeilliannau Prosiect Rheoli Parasitiaid Cyswllt Ffermio.

NEGESEUON ALLWEDDOL

- ➔ Rhewch driniaeth llyngyr i famogiaid ar yr adeg iawn i leihau'r llygru ar y borfa – defnyddiwch gyfrif wyau ysgarthol
- ➔ Peidiwch â thrin y mamogiaid i gyd – gadewch 10% o leiaf
- ➔ Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio triniaeth effeithiol



CEFNDIR

I'r rhan fwyaf o ffermwyr, y gwanwyn yw'r unig amser pan ellir cyfiawnhau trin llyngyr mewn defaid. Oherwydd y straen o ran maeth ar famogiaid yn hwyr yn eu beichiogrwydd/yn y cyfnod blaetha cynnar a straen geni ŵyn, gall system imiwnedd y mamogiaid sy'n arfer bod yn gryf, ddiodeff. Gall unrhyw lyngyr y mae'r mamogiaid wedi eu cynnal dros y gaeaf fel llyngyr heb ddatblygu'n llawn, neu heintiadau newydd a godir gan larfa sydd wedi gaeafu ar y borfa, ffynnu dan yr amodau hyn. Dyna pam y cyfeirir ato fel y cynnydd yn y cyfnod geni neu gynnydd y gwanwyn. Os yw hyn yn wir, yna gall y mamogiaid yma halogi llawer o borfa lle byddwn yn disgwyl i'r ŵyn besgi yn dda oddi ar laswellt yn hwyrach yn y tymor hwnnw. Felly, gellir cyfiawnhau trin y llyngyr wrth ŵyna ac os caiff ei reoli yn gywir, gall helpu i leihau'r halogi ar y borfa.

Beth yw'r polisi presennol o ran trin llyngyr yn y gwanwyn?

Roedd gan ffermwyr ar y Prosiect Rheoli Parasitiaid bolisi amrywiol ar drin llyngyr mewn mamogiaid o gwmpas y cyfnod hwn. Byddai rhai yn trin ganol gaeaf neu cyn ŵyna, byddai rhai yn trin yn fuan ar ôl ŵyna (ar gyfer systemau ŵyna

dan do) a byddai rhai yn gadael y trin hyd 4 i 6 wythnos ar ôl ŵyna i gyd-fynd â'r cyfnod tocio mamogiaid a nodi clustiau. Felly pwy sy'n iawn?

A oes unrhyw gwestiynau y dylem eu hystyried:

1. Pryd mae'r heintiad yn digwydd? Pryd mae'r heintiad yn y gwanwyn ar ei waethaf? Sut mae hyn yn effeithio ar ddiadelloedd sy'n ŵyna yn hwyr ac yn gynnar?
2. A yw pob mamog yn llygru'r borfa, felly, a oes angen trin llyngyr ym mhob mamog?
 - a. A yw pob mamog yn diodeff yr un faint o straen?
 - b. A oedd y borfa yr oedd y mamogiaid yn pori arno yn ystod yr hydref blaenorol/ gaeaf yn cynnwys poblogaeth sylweddol o lyngyr a all gael eu cludo fel llyngyr heb ddatblygu dros y gaeaf?
 - c. A yw'r caeau sy'n cael eu pori yn y gwanwyn yn cynnwys parasitiaid oedd wedi gaeafu ar y borfa?
3. Gall trin mamogiaid gynyddu'r risg y bydd gwrthedd i'r driniaeth yn datblygu, gan ei fod ar bwynt lle mae mwyafrif poblogaeth y fferm o lyngyr yn debygol o fod y tu mewn i'r mamogiaid.

Camau a argymhellir:

- **Peidiwch â thrin eich holl famogiaid.**
Defnyddiwch gyfrif wyau ysgarthol i benderfynu a ellid gadael rhai grwpiau heb eu trin.
- Dylech, o leiaf, ddewis 10% o bob grŵp i'w gadael heb eu trin; y mamogiaid hyn ddylai fod dan y lleiaf o bwysau h.y. mamogiaid hŷn a sgôr cyflwr corff da.
- Peidiwch â defnyddio'r un grŵp anthelmintig o flwyddyn i flwyddyn.
- Osgowch ddefnyddio triniaethau sy'n gweithredu am hir (Moxidectin) os byddwch yn eu troi i gaeau lle mae'r risg yn isel ac yn hwyr yn y cyfnod lle bydd cynnydd yn y gwanwyn (e.e. ar ôl ŵyna/troi allan).
- Amseru – defnyddiwch gyfrif wyau ysgarthol i bennu pryd y bydd angen triniaeth neu os oes ei hangen o gwbl.

Pryd i brofi trwy gyfrif wyau ysgarthol?


- Dechreuwch brofi wrth eu troi i mewn neu 3/4 wythnos cyn ŵyna (e.e. wrth roi'r brechiad dostridial).
- Os yw'r cyfrif wyau ysgarthol yn isel,

profwch eto amser ŵyna (gall y cyfrif wyau gynyddu hyd yn oed pan fyddant dan do). Penderfynwch a oes angen triniaeth wrth droi allan (diadellodd sy'n ŵyna dan do yn unig).

- **Profwch bob grŵp** ar wahân; mae mamogiaid sy'n cario mwy nag un oen a mamogiaid teneuach/ieuengach mewn mwy o risg o fwy o faich o lyngyr.
- Dylai imiwnedd llawn y famog i lyngyr ddychwelyd 8 i 10 wythnos ar ôl ŵyna.
Daliwch ati i fonitro eich mamogiaid hyd at hyn a thrin os bydd angen.
- Ceisiwch osgoi trin fwy nag unwaith yn ystod y cyfnod mwyaf heintus yn y gwanwyn os yw'n bosibl.

Deilliannau a welwyd:

Mae'r graff isod yn dangos yr amrywiad rhwng cyfrif wyau ysgarthol mamogiaid ar y ffermydd Prosiect Rheoli Parasitiaid yn ystod gwanwyn 2019. Mae'n hawdd tybio y bydd un grŵp a/neu fferm yn debyg iawn i un arall, ac mae'r graff yn dangos nad yw hyn yn wir. Arweiniodd hyn at ddeilliannau/canlyniadau gwahanol ar gyfer pob fferm.



Am ragor o wybodaeth am Brosiect Rheoli Parasitiaid Cyswllt Ffermio, edrychwch ar yr adroddiad llawn a'r astudiaethau achos yn <https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/prosiectau-ein-ffermydd/ffocws/prosiect-rheoli-parasitiaid>. Erthygl dechnegol a baratowyd ar ran Cyswllt Ffermio gan Tachion UK.

Cynllun treialu yn dangos nad yw gwerth maethol cnwd cyfan cystal â silwair glaswellt o safon uchel

Dangosodd cynllun treialu gan Cyswllt Ffermio y gall cyflwyno cnwd cyfan yn y cylch ail-hadu blynyddol gynnig ychwanegiad rhad o brotein yn niet gwartheg a diogelu'r egin newydd rhag chwyn, ond nid yw ei werth maethol cystal â silwair glaswellt o ansawdd uchel.

Heuodd y teulu Davies farlys gwanwyn dan hadau glaswellt a meillion 3.7 hectar ar y fferm 300 erw Dyffryn Cothi yng Nghrug-y-bar, Sir Gaerfyrddin.

Roeddent wedi tyfu cnwd cyfan ar ddarn llai o faint yn eu cytundeb Glastir ond roeddent yn awyddus iawn i ddysgu rhagor am ei gostau a'i werth fel porthiant fel dewis gwahanol i silwair glaswellt trwy ei dyfu ar raddfa fwy.

Gan weithio gyda Cyswllt Ffermio fel prosiect safle ffocws, heuwyd yr hadau ar ddarn o dir ar 14 Ebrill a chynaeafwyd y cnwd ar ddiwedd Gorffennaf.

Roedd y cnwd cyfan yn gnwd da i feithrin yr hadau newydd, ond roedd ei werth maethol yn llai na'r silwair sych a gynhyrchwyd ar y fferm;

roedd y protein crai a'r cynnwys sych yn cael eu dadansoddi ar 5.5% a 47% mewn cymhariaeth â 6.7% a 66% yn y silwair sych.

Dyweddodd yr ymgynghorydd silwair annibynnol Dr Dave Davies, tra bod y cnwd cyfan yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at laswellt sy'n egino, mae'r gyfran uchel o goesynnau sydd ynddo yn cael dylanwad negyddol ar ei ansawdd maethol.

Mae'n rhybuddio yn erbyn canolbwyntio ar faint y cnwd yn hytrach na'i ansawdd maethol, gan awgrymu bod rhaid i'r cynnyrch cig a llaeth a gynhyrchir ar ôl i'r cnwd gael ei fwyta fod yn flaenoriaeth.

"Wrth edrych ar gynnyrch y cnwd, rydym mewn perygl o fod â meddylfryd agronomegwyr, nid maethegydd," dywedodd wrth ffermwyr oedd mewn diwrnod agored Cyswllt Ffermio yn Nyffryn Cothi.

"Petaem yn edrych ar y cynnyrch ME (egni y gellir ei fetabileiddio), byddai'n rhoi'n llawer gwell targed i ni."

Wrth i gynnwys sych y cnwd cyfan gynyddu, mae ei werth ME yn gostwng; felly mae Dr Davies yn cynghori y dylid cynaeafu'r cnwd cyn

i'r hadau ymddangos, yn groes i'r gred gyffredin. "Os ydych yn mynd i'w roi mewn byrnau, torrwc ar 30% DM; os bydd yn rhy aeddfed, bydd yr hadau yn mynd trwy'r anifail heb eu treulio," dywedodd. "Mae'r cynnwys egni yn gwella os caiff ei dorri cyn i'r hadau ymddangos, ac mae'n golygu hefyd bod cyfle y gallwch gael ail gnwd o farlys. Os na allwch chi ei dorri, porwch ef yn lle hynny; gall fod â gwerth protein o 17%."

Dyweddodd Glyn Davies, sy'n ffermio gyda'i dad, Douglas, y byddai'r cnwd cyfan yn cynnig porthiant pwysig i fuchod sych yn ei fuches o 45 o fuchod magu gan fod ar y dosbarth hwn o wartheg angen silwair ffibrog, ond na fyddai yn ei roi i'r gwartheg sy'n tyfu.

Yn ôl Dr Davies, mae cynhyrchu silwair glaswellt o ansawdd uchel yn ddewis gwell i ffermwyr da byw a llaeth.

"Gallwch gael gwared ar ddwysfwyd os gallwch chi gynhyrchu silwair sy'n 11.5ME neu uwch," dywedodd.

Elfen bwysig o brosiect Cyswllt Ffermio oedd cyfrifo cost cynhyrchu cnwd cyfan mewn cymhariaeth â chynhyrchu silwair glaswellt.

Yn seiliedig ar gostau Cymdeithas Genedlaethol y Contractwyr Amaethyddol am 2018, roedd cyfanswm costau cynhyrchu'r cnwd yn Nyffryn Cothi, gan gynnwys y peiriannau a'r mewnbwn, yn £786.72/ha mewn cymhariaeth â £195/ha ar gyfer cynhyrchu silwair sych o borfa barhaol.

Ond fel dull o ail-hadu, gallai hau cnwd cyfan dan y borfa barhaol gynnig manteision, dywedodd Sarah Hughes, swyddog technegol cig coch Cyswllt Ffermio dros dde orllewin Cymru.

"Petai'r cae wedi ei hau â glaswellt a meillion yn unig, byddai cyfanswm y costau yn £678.22/ha mewn cymhariaeth â'r £786.72/ha ar gyfer hau oddi tano oherwydd ei fanteision posibl o ran rheoli chwyn," dywedodd.

"Mae'n anodd a drud rheoli chwyn llydanddail yn llwyddiannus pan fydd meillion yn bresennol, ond yn yr achos hwn, roedd barlys y gwanwyn yn atal y chwyn gan ei fod yn cynhyrchu cnwd trwchus sy'n atal chwyn llydanddail rhag cael golau."





Cynhyrchwyr moch newydd yn cael eu cynghori i fuddsoddi mewn geneteg sy'n gwarantu perfformiad

Gall cynhyrchu moch fod yn ddull proffidiol o arallgyfeirio i ffermwyr da byw Cymru sy'n chwilio am gyfle i dyfu eu busnes, ond mae llwyddiant yn y sector hwn yn dibynnu ar gyfuniad o effeithlonrwydd, sylw i fanylion ac arbenigedd.

Mae'r galw yn y farchnad, pris sefydlog a pherfformiad sy'n gwella yn creu darlun cadarnhaol i gynhyrchu moch, yn ôl arbenigwr yn y diwydiant, Mick Sloyan.

Bu'n cyfarfod ffermwyr trwy Gymru yn ystod cyfres o ddigwyddiadau ar y cyd gan Cyswllt Ffermio a Menter Moch Cymru a anelwyd ar gyfer ffermwyr sy'n ystyried cynhyrchu porc.

Ariennir Menter Moch Cymru gan Raglen Cymunedau Gwledig – Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020, sy'n cael ei ariannu gan y Gronfa Amaethyddol Ddatblygu Gwledig Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru.

Dim ond 25,000 o foch sydd yn y genfaint genedlaethol yng Nghymru - i lawr o 300,000 yn 1972; gyda phoblogaeth o dair miliwn o bobl yng Nghymru, mae potensial da ar gyfer cyfleoedd cyflenwi.

"Rwy'n meddwl bod cyfleoedd wrth gynhyrchu moch, ond mae'n fusnes technegol iawn, felly er mwyn llwyddo, mae rhoi sylw i fanylion yn bwysig iawn," dywedodd Mr Sloyan wrth ffermwyr a ddaeth i'r digwyddiad yn Llandysilio, Sir Benfro.

Mae cadwyn gyflenwi effeithlon yn bwysig iawn hefyd; mae angen i gynhyrchwyr sicrhau cyflenwad o borthiant a chefnogaeth filfeddygol.

Mae'n bwysig hefyd bod yn ymwybodol o amrywiadau mewn prisiau; gall costau porthiant amrywio yn sylweddol, a, gan fod porthiant yn cyfrif am 70% o'r costau, mae cysylltiad cryf rhwng proffidioldeb â phrisiau'r mewnbwn.

Gall lefel y buddsoddiad fod yn uchel iawn, neu yn gymedrol, gan ddibynnu ar y system; mae cysylltiad uniongyrchol rhwng lefel yr elw a'r risg.

Cymharol isel yw cost buddsoddiadau cyfalaf wrth besgi ar gontract ac mae galw gan y rhai sy'n magu sy'n chwilio am rywle i orffen y moch.

Mae hyn yn ddewis i ffermwr sy'n chwilio am ddewis gyda llai o risg, ond mae'r elw

hefyd yn llai, nododd Mr Sloyan. Gall contractau pesgi moch yng Nghymru fod yn anodd eu cael ac ar hyn o bryd mae lleoliad a hygyrchedd yn pennu hynny.

"Mae'r pris a delir gan y rhai sy'n magu yn sefydlog, felly os bydd y farchnad am gig moch yn cynyddu, mae'r pris yn aros yr un fath; ond mae hynny'n wir hefyd os bydd y pris yn gostwng."

System o eni i besgi sydd â'r gofynion buddsoddi trymaf ac mae angen bod yn agos at ladd-dy a rhaid i'r cynhyrchydd sicrhau bod ganddo brynwr.

Bydd prynu perchyll diddwy'n i mewn i'w pesgi yn gofyn am lai o fuddsoddiad, ond rhaid ystyried faint o berchyll sydd ar gael a'r amrywiaeth yn eu pris.

"Dewis arall yw ymuno â grŵp marchnata a fydd yn dod o hyd i'r perchyll ac yn marchnata ar eich rhan," dywedodd Mr Sloyan.

Gall gwerthu cig yn uniongyrchol gynnig elw da, ond gall yr amrywiadau tymhorol yn y galw fod yn broblem, fel y gall dod o hyd i farchnad ar gyfer y carcass cyfan.

"Mae elw da i'w wneud wrth gyflenwi yn uniongyrchol ond rhaid i chi fod yn ymwybodol o natur y galw, ac ni fydd yr un faint o alw am bob rhan o'r carcass," dywedodd Mr Sloyan.

Un ffermwr a fentrodd i gynhyrchu moch dair blynedd yn ôl yw Luke Starkey, sy'n cadw cenfaint o 140 o hychod Gwyn Mawr/Landrace yn Talfan, ger Hendy-gwyn ar Daf.

Wrth annerch y ffermwyr yn y digwyddiad yn Llandysilio, cynghorodd y cynhyrchwyr newydd i fuddsoddi cymaint ag y byddai eu cyllideb yn ei ganiatáu mewn geneteg.

"Buddsoddwch yn y moch a fydd yn rhoi perfformiad i chi; ar gyfer fy model busnes, rwyf yn defnyddio moch hybrid sydd wedi eu dylunio i dyfu yn gyflym a diwastraff," argymhellodd Mr Starkey.

Ar y dechrau sefydlodd genfaint o foch Cymreig ond mae'n graddol gael gwared â'r brid hwnnw oherwydd sialensiau o ran effeithlonrwydd. "Rydym yn cael cyfraddau tyfu dros 1kg y dydd o'r hychod Gwyn Mawr/

Landrace wedi eu croesi â baedd hybrid ar ôl iddynt gyrraedd y cyfnod pesgi; dim ond 600g yr oeddem yn ei gael o'r Mochyn Cymreig o'r un faint o borthiant."

Roedd lefelau uchel o fraster ar y cefn yn y Mochyn Cymreig ar y pwysau mwyaf yn broblem. "Rydym yn cael ein graddio ar bwysau a'r mesur o fraster ar y cefn, gan wneud y Mochyn Cymreig yn hollol anaddas ar gyfer cynhyrchiant masnachol," dywedodd Mr Starkey.

Roedd wedi bod yn rhedeg system yn yr awyr agored ond yn ddiweddar buddsoddodd mewn uned hychod dan do.

"Mae hyn yn gweddu yn llawer gwell i'r hinsawdd a'r tir yn yr ardal hon," dywedodd.

"Bydd yn rhoi llawer mwy o reolaeth dros reoli a pherfformiad. Rwyf yn disgwyl i berfformiad ein hychod gynyddu'n sylweddol."

Mae cyngor gyda chymhorthdal i ffermwyr sydd wedi cofrestru sy'n ystyried arallgyfeirio i faes moch trwy Cyswllt Ffermio.

Dywedodd Dafydd Owen, Swyddog Technegol Moch yn Cyswllt Ffermio, bod y gwasanaeth yn rhoi cyngor arbenigol, annibynnol, cyfrinachol ac i'r diben.

"Gall roi cynllun busnes i ffermwyr neu gynllun arallgyfeirio i asesu dichonolrwydd y cynnig," dywedodd.

Am ragor o wybodaeth am y gwasanaethau cefnogi perthnasol sydd ar gael megis hyfforddiant, e-ddysgu a mentora, ewch i wefan Cyswllt Ffermio. Yn ychwanegol, gall ffermwyr sydd â diddordeb mewn dod i mewn i'r sector moch neu'r rhai sydd eisoes wedi sefydlu fel ceidwaid moch gael amrywiaeth o raglenni cefnogi gan brosiect Menter Moch Cymru, gan gynnwys; cyrsiau hyfforddi, grantiau tuag at gynlluniau iechyd cenfaint, mynediad at adnoddau arbenigol a deunyddiau, a chefnogaeth marchnata a hyrwyddo.

Ewch i www.mentermochcymru.co.uk a www.llyw.cymru/cyswlltffermio am ragor o wybodaeth.



Yn y llun (o'r chwith i'r dde) yn y digwyddiad arallgyfeirio moch: Dafydd Owen, Swyddog Technegol Moch, Cyswllt Ffermio; Mick Sloyan, arbenigwr o'r diwydiant moch; Elin Jones, Menter Moch Cymru; Luke Starkey, ffermwr a Ken Stebbings, Menter Moch Cymru.

Y FRWYDR YN ERBYN CHWYN YN POETHI - prosiect rheoli dail tafol yn electroffisegol EIP Cymru

Gall dail tafol leihau porfa neu ansawdd silwair yn sylweddol gan mai dim ond 65% o werth porthiant glaswellt sydd ynddynt. Mae hyn, ynghyd â'u gallu i feddiannu caeau yn gyflym, yn eu gwneud yn chwyn trafferthus iawn i ffermwyr glaswelltir.

Mae dau ffermwr llaeth ger Rhaglan, Sir Fynwy, yn treialu dull newydd ac unigryw o reoli dail tafol sy'n defnyddio trydan fel ei elfen gudd. Mae'r grŵp yn gweithio gyda'r staff yn Rootwave sydd wedi datblygu amrywiaeth o offer trin chwyn trydanol sydd wedi eu dylunio i ddinistrio chwyn trwy anfon cerrynt foltedd uchel trwy'r planhigyn.

Yn y prosiect dwy flynedd hwn, rhannwyd dau gae yn blotiau treialu i gymharu effeithiolrwydd triniaeth drydanol (gan ddefnyddio picell drydanol) mewn cymhariaeth â thrin yn y dull arferol gyda chwynladdwr. Dengys y canlyniadau o'r tymor tyfu cyntaf (Ffigwr 1 a 2) bod triniaeth drydanol wedi bod yn effeithiol wrth ladd y dail tafol, ond, gwelwyd bod angen ailadrodd y driniaeth i fod yr un mor llwyddiannus â chwynladdwr.




Mae'r peiriant Rootwave Pro yn defnyddio generadur petrol a phicell gyda chebl hir (~20m).


Dŵr yn anweddu o feinwe'r planhigyn. Roedd pob planhigyn dail tafol yn y plot yn cael ei gyffwrdd â'r bicell drydanol am tua 5-10 eiliad cyn symud at y planhigyn nesaf.



Ffig 1.



Ffig 2.



Hyd yn hyn, mae'r prosiect wedi dangos bod y dechnoleg yn gweithio, ac wrth i'r treialon barhau yn 2020, bydd addasiadau yn cael eu gwneud i amseriad y triniaethau a bydd rhagor o ddata yn cael ei gasglu.

"Mae potensial mawr i'r dull unigryw hwn o drin dail tafol i ffermwyr organig a chonfensiynol. Gellir addasu graddfa'r dechnoleg, a gellid defnyddio chwynwyr trydanol mwy ar dractor mewn amrywiaeth o wahanol sefyllfaoedd ar y fferm," dywedodd Will John, ADAS, y Brocer Arloesedd ar gyfer y prosiect.

Mae hi'n dal yn ddyddiau cynnar i'r dechnoleg hon, ac yn yr un modd ag unrhyw beth newydd, bydd datblygiadau yn arwain at fwy o effeithlonrwydd a gostyngiad yn y pris. Gall chwynnu trydanol gynnig dewis gwahanol at reoli chwyn yn y dyfodol ar ffermydd confensiynol ac organig.

Datblygu eich sgiliau, datblygu eich busnes – cyfnod ymgeisio sgiliau ar agor NAWR

Trwy Gymru gyfan, mae'r busnesau fferm a choedwigoedd mwyaf blaengar yn manteisio ar hyfforddiant Cyswllt Ffermio. Ar yr amod eich bod wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio, gallwch ddewis o blith **80** o gyrsiau wyneb yn wyneb, y cyfan gyda chymhorthdal o hyd at **80%** ac yn cael eu darparu trwy Gymru gan ein rhwydwaith o ddarparwyr hyfforddiant a gymeradwywyd.

**Mae'r cyfnod ymgeisio am gyllid ar agor nawr hyd at
17:00 dydd Gwener 28 Chwefror 2020.**

Os ydych yn cofrestru fel unigolyn am y tro cyntaf neu fod angen diweddaru eich cyfrif presennol, cysylltwch â Cyswllt Ffermio cyn 17:00 ddydd Llun, 24 Chwefror 2020.

Cyrsiau yn gysylltiedig â busnes - 27 ar gael i'w dewis gan gynnwys:

Cadw llyfrau, TAW a 'Gwneud Treth yn Ddigidol'
Cynllunio ar gyfer arallgyfeirio neu fenter newydd
Iechyd a Diogelwch mewn Amaethyddiaeth – paratoi ar gyfer archwiliad
Dyfarniad Lefel 2 mewn diogelwch bwyd ym maes arlwy, gweithgynhyrchu neu adwerthu


Cyrsiau yn gysylltiedig â da byw - 19 ar gael i'w dewis gan gynnwys:

Cneifio defaid gyda pheiriant
Iechyd, Lloches a Rheoli Lloi
Cyrsiau yn gysylltiedig â'r 'Pasbort dofednod'
Cyflwyniad i reoli llyngyr a chyfrif wyau ysgarthol ar gyfer cynhyrchwyr defaid

Cyrsiau yn gysylltiedig â'r tir - 34 ar gael i'w dewis gan gynnwys:



Pori er lles cadwraeth
Defnyddio a gwasgaru slyri'n ddiogel
Cwrs sylfaenol BASIS mewn agronomeg
Cwrs rheoli ar gyfer asesu a gwella glaswelltir



Bydd angen i unigolion cofrestredig sy'n dymuno ymgeisio am hyfforddiant gyda chymhorthdal yn ystod y cyfnod ymgeisio presennol gwblhau Cynllun Datblygu Personol ar-lein cyn ymgeisio am gyllid.

Am ragor o wybodaeth am y broses ymgeisio a'r cynllun datblygu personol, rhestr lawn o'r holl gyrsiau hyfforddi Cyswllt Ffermio a rhestr o'r darparwyr hyfforddiant, ewch i www.llyw.cymru/cyswlltffermio neu ffoniwch Cyswllt Ffermio ar **08456 000 813**. Fel arall, siaradwch â'ch darparwr hyfforddiant neu'r swyddog datblygu Cyswllt Ffermio lleol.

DIOGELWCH EICH DA BYW RHAG GWRTHEDD I WRTHFIOTIG

Os bydd gwrthfotig yn cael ei ddefnyddio yn ddiangen neu yn amhriodol i drin anifail, gallech fod yn cynyddu'r risg o wrthedd i wrthfotig a lleihau effeithlonrwydd y driniaeth.

Gall ffermwyr cymwys ddod i weithdy iechyd anifeiliaid wedi ei ariannu'n llawn i:

- Ddysgu sut y mae'r rhyngweithio rhwng pobl, anifeiliaid a'r amgylchedd yn effeithio ar ledau gwrthedd gwrthficrobaidd
- Dysgwch pa gamau ymarferol y gallwch eu cymryd i leihau'r defnydd o wrthfotig, gan leihau'r risg o heintiad a'r canlyniadau i'ch busnes
- Dysgwch sut i gofnodi'r defnydd o wahanol wrthfotigau yn effeithiol a thrafod ffyrdd o wella iechyd, rheoli afiechydon a boddigolwch gyda'ch milfeddyg eich hun



Am restr o'r cwmnïau milfeddygol sy'n cymryd rhan a dyddiadau/leoliadau'r gweithdai, ewch i www.llyw.cymru/cyswlltffermio

Hyfforddiant TG wedi ei ariannu'n llawn... angen help llaw?



Am ragor o wybodaeth, ewch i www.llyw.cymru/cyswlltffermio neu cysylltwch â Chanolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio ar **08456 000 813**.

I DDECHREUWYR LLWYR:

Cwrs hyfforddi chwe wythnos, yn cael ei ddarparu trwy sesiwn dwy awr yr wythnos, wedi ei ddylunio i roi sgiliau TG sylfaenol y gallwch eu defnyddio yn eich busnes. Yn cael eu darparu ledled Cymru ar lefel a chyflymder addas i chi.

TIWTORA UN I UN:

Hyd at ddau ymweliad cartref dwy awr wedi eu hariannu'n llawn gan diwtoriaid TG arbenigol. Yr hyfforddiant yn cael ei addasu i'ch gofynion, gan ganolbwyntio ar unrhyw broblemau neu fylchau yn eich gwybodaeth.

GWEITHDAI:

Dysgwch sut i integreiddio'r dechnoleg TG ddiweddaraf i'ch busnes, gan gynnwys apiau rheoli ffermydd; defnyddio drôn; creu gwefan; defnyddio cyfryngau cymdeithasol i'ch busnes a diogelwch ar-lein.

Gall newidiadau bychain wneud gwahaniaeth mawr!



Mae Gwen Price (24) yn ffermio yn Sir Gâr ac mae ei rhieni'n cadw fferm biff a defaid yn Llangadog. Mae Gwen bob amser wedi llwyddo i gyfuno agweddau busnes ac ymarferol o waith ffermio, ac mae hi ar hyn o bryd yn gweithio tuag at gyflawni gradd Meistr ar-lein mewn amaeth. Mae hi bellach wedi ychwanegu at ei chyflawniadau ac mae wedi derbyn swydd gyda Cyswllt Ffermio fel swyddog datblygu dros ardal Brycheiniog am gyfnod o 12 mis.

Dechreuodd Gwen rentu tir ger y fferm deuluol y llynedd, ac mae hi bellach yn cadw ei diadell ei hun o 185 o famogiaid Suffolk a Penfrith. Cafodd ei dewis i gymryd rhan yng Nghynllun Ymsefydlu mewn Amaeth i Bobl Ifanc Llywodraeth Cymru, ac mae ganddi gynllun busnes pum mlynedd ar gyfer ei busnes newydd.

Mae hi bellach ar y trywydd iawn i gyflawni'r dangosyddion perfformiad allweddol a amlinellir yn y cynllun ac i ehangu'r fenter.

Yn gynharach eleni, cyhoeddwyd mai Gwen oedd enillydd y categori ar gyfer y rhai 'dan 40 mlwydd oed' yng ngwobrau Dysgwr y Flwyddyn Lantra Cymru. Dywed Gwen fod cwblhau tri chwrs hyfforddiant gwella busnes drwy Cyswllt Ffermio wedi rhoi syniad gwych iddi, pan sylweddolodd y byddai modd iddi ddefnyddio ei sgiliau newydd i sefydlu busnes newydd arall yn darparu gwasanaethau amaethyddol i ffermwyr eraill.

"Rydwi i bob amser wedi mwynhau delio gyda holl gyfrifon y fferm a chadw cofnodion, ond mae hyfforddiant Cyswllt Ffermio wedi cyflwyno ffyrdd cyflymach a mwy effeithlon o ddelio gyda'r gwaith papur cynyddol y mae angen i bob ffermwr ei gwblhau.



Gwen Price (canol) yn seremoni wobrwyo Lantra Cymru

"Mae'r cyrsiau 'Cadw cofnodion ariannol a TAW' a 'Deall a defnyddio eich cyfrifon' wedi fy nghyflwyno i ffordd llawer symlach o brosesu a chofnodi data, gan olygu fy mod i'n gallu arbed llawer iawn o amser yn ogystal â lleihau ein biliau cyfrifydd trwy wneud mwy o waith fy hun yn gyflymach ac yn fwy effeithlon."

"Roedd y cwrs 'Cynllunio eich busnes ar gyfer y dyfodol' hefyd yn agoriad llygad, ac fe sylweddolais yn fuan iawn bod cyflwyno newidiadau syml iawn yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr!"

"Mae arbed cymaint o amser wedi fy ngalluogi i dderbyn fy swydd newydd gyda Cyswllt Ffermio, heb effeithio ar unrhyw agweddau eraill o'r fferm, y busnes gwasanaethau amaethyddol newydd na'm hastudiaethau."

Enillodd Gwen le ar raglen Busnes ac Arloesedd Academi Amaeth Cyswllt Ffermio'r llynedd, profiad y mae'n dweud sydd wedi cael effaith sylweddol ar ei chynlluniau ar gyfer ei busnes yn ogystal â'i gyrfa.

"Daeth yr ail syniad gwych i mi yn ystod un o sesiynau mentora'r Academi Amaeth, a

sylweddolais y byddai cyfuniad o'm sgiliau newydd a swydd gyda phatrwm gweithio hyblyg yn fy ngalluogi i sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

"Bydd fy rôl newydd gyda Cyswllt Ffermio'n rhoi'r cyfle perffaith i mi hyrwyddo'r holl wasanaethau sydd ar gael, a gallaf rannu o brofiad personol sut yr ydwi i wedi elwa o gyrsiau hyfforddiant busnes Cyswllt Ffermio a'm profiad gyda'r Academi Amaeth - y ddau beth wedi gweddnewid fy mywyd!"

Noder: Mae'r cyfnod ymgeisio ar gyfer Academi Amaeth 2020 bellach ar agor a bydd yn cau am **11.59pm ddydd Mawrth 31 Mawrth.**

Gweler tudalen 18 neu ewch i www.llyw.cymru/cyswlltffermio am ragor o fanylion.





FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

ACADEMI AMAETH AGRI ACADEMY

2020

Rydym yn derbyn ceisiadau ar gyfer
rhaglenni'r Academi Amaeth nawr!

Ymgeisiwch cyn **31 Mawrth 2020**

Rhaglen Busnes ac Arloesedd

Rhaglen yr Ifanc

Menter ar y cyd gyda CFfl Cymru



Rhagor o wybodaeth i'w gael ar ein gwefan:
www.llyw.cymru/cyswlltffermio



FFERMIO
AR GYFER Y DYFODOL
FARMING
FOR THE FUTURE



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO
08456 000 813

SIOE DEITHIOL 'Ffermio ar gyfer y dyfodol'

Ymunwch â ni yn un o'r digwyddiadau yma am fwy o wybodaeth
o'r gefnogaeth a'r gwasanaethau sylweddol sydd ar gael i chi

- **Diogelu** eich busnes
- **Mynediad** at gefnogaeth busnes a thechnegol wedi'i ariannu'n rhannol neu'n llawn
- **Dechrau'r broses** ar gyfer eich cais Grant Busnes i Ffermydd (FBG)

PWYSIG: Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y Grant Busnes i Ffermydd, mae'n rhaid i bartner yn y busnes fynychu un o'r digwyddiadau 'Ffermio ar gyfer y Dyfodol' a drefnir gan Cyswllt Ffermio. Mae'n rhaid i'r unigolyn sy'n mynychu fod wedi cofrestru fel partner busnes gyda Cyswllt Ffermio a Thaliadau Gwledig Cymru Llywodraeth Cymru.

DYDDIAD	LLEOLIAD
03/03/2020	Glasdir, Llanrwst, Sir Conwy LL26 0DF
05/03/2020	Ysgol Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3AW
10/03/2020	Theatr y Dywysoges Frenhinol, Port Talbot, Castell-nedd Port Talbot SA13 1PJ

Bydd y drysau'n agor am **19:00** ac mae'n **rhaid** i bawb arwyddo i mewn.

Bydd y digwyddiadau'n dod i ben am **21:30**.

Mae archebu lle ymlaen llaw yn **hanfodol** ar gyfer y digwyddiadau hyn.

Mae'n rhaid i'r busnes sy'n ymgeisio fod wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio cyn i aelod o'r busnes archebu lle i fynychu digwyddiad Ffermio ar gyfer y Dyfodol a gynhelir gan Cyswllt Ffermio.



Am fanylion llawn y digwyddiadau ewch i
www.llyw.cymru/cyswlltffermio neu cysylltwch
â ni drwy ffonio **08456 000 813** neu e-bostiwch
cyswlltffermio@menterabusnes.co.uk



Digwyddiadau Rhwydwaith Arddangos Cyswllt Ffermio

Bydd Rhwydwaith Arddangos Cyswllt Ffermio yn parhau i gynnal digwyddiadau ar ffermydd yn ystod 2020. Dyma eich cyfle i ymweld â Ffermydd y Rhwydwaith Arddangos ledled Cymru, sydd wedi cael eu dewis er mwyn rhannu enghreifftiau o arfer dda, arloesedd a thechnolegau newydd gyda'r diwydiant ehangach.

Dyddiadau i'r Dyddiadur! Cymerwch olwg ar rai o'r digwyddiadau a fydd yn cael eu cynnal yn eich ardal chi yn ystod 2020.

Teitl Digwyddiad	Dyddiad/Amser	Lleoliad	Cyswllt
Canolbwyntio ar y Traed: Gwella symudedd yn y fuches laeth	11:00 - 15:00 24/03/2020	Graig Olway, Llangview, Brynbuga, Sir Fynwy NP15 1NB	Gwenan Evans 07985 379 819 gwenan.evans@menterabusnes.co.uk
Pesgi Teirw Biff: A all tyfu cynydau â'r leihau costau cynhyrchiant?	23/04/2020	Tyddyn Gwyn, Llangian, Pwllheli, Gwynedd LL53 7LP	Gwion Parry 07960 261 226 gwion.parry@menterabusnes.co.uk
Opsiynau porthiant gwahanol er mwyn gwella profeddoldeb a lleihau'r effaith amgylcheddol ar fferm ucheldir	14:00 - 17:00 12/05/2020	Dolygarn, Llanbadarn Fynydd, Llandrindod, Powys LD1 6YL	Elan Davies 07985 379 890 elan.davies@menterabusnes.co.uk
Cynyddu cynnyrch laeth o borthiant a phorfa mewn system bori drwy gydol y flwyddyn	10:30 - 14:30 27/05/2020	Erw Fawr, Llanynghenedl, Caergybi, Ynys Môn LL65 3HQ	Rhys Davies rhys.davies@menterabusnes.co.uk
Gwella perfformiad y fuches laeth a'r fenter biff	14:00 - 17:00 01/06/2020	Bryn Farm, Aberteifi, Ceredigion SA43 1PL	Lliffon Davies 07399 849 148 lliffon.davies@menterabusnes.co.uk
A all technoleg newydd helpu i fonitro a rheoli iechyd lloï?	04/06/2020	Pentre Farm, Pentrecelyn, Rhuthun, Sir Ddinbych LL15 2HE	Gwion Parry 07960 261 226 gwion.parry@menterabusnes.co.uk

Teitl Digwyddiad	Dyddiad/Amser	Lleoliad	Cyswllt
A all technoleg newydd a dulliau newydd o fesur wella cynhyrchiant ieir dodwy?	14:30 - 17:30 17/06/2020	Y Wern, Foel, Y Trallwng, Powys SY21 0NY	Y Ganolfan Wasanaeth 08456 000 813 cyswlltffermio@menterabusnes.co.uk
Ffocws ar ffrwythlondeb, a llaeth o borthiant	17/06/2020	Nantglas, Talog, Camarthar, SA33 6NS	Gwenan Evans 07985 379 819 gwenan.evans@menterabusnes.co.uk
Mapio priddoedd i sicrhau rheolaeth tir mwy manwl	14:00 - 17:00 02/07/2020	Pantyderi, Blaenffos, Boncath, Sir Benfro SA37 0JB	Delana Davies 07811 261 628 delana.davies@menterabusnes.co.uk
Dethol ar gyfer geneteg effeithlon mewn buches sy'n lloia yn y gwanwyn	10:30 - 14:30 14/07/2020	Mount Joy Farm, Treffgame, Hwlfordd, Sir Benfro SA62 5PJ	Simon Pitt 07939 177 935 simon.pitt@menterabusnes.co.uk
Ŵyn Benyw: Sut i gynyddu cyfraddau beichiogi a magu	16/07/2020	Halghton Hall, Bangor-is-y-Coed, Wrecsam LL13 0BN	Gwion Parry 07960 261 226 gwion.parry@menterabusnes.co.uk
Ffrwythlondeb y fuches sugno: A all technoleg newydd LoRaWAN wella effeithlonrwydd a dulliau monitro iechyd?	29/07/2020	Moelogan Fawr, Carmel, Llanrwst, Conwy LL26 0NY	Gwion Parry 07960 261 226 gwion.parry@menterabusnes.co.uk
Cynyddu gwerth porthiant a dyfir gartref gyda meillion	14:00 - 17:00 30/07/2020	Cefngwilyg Fawr, The Gorn, Llanidloes, Powys SY18 6LA	Elan Davies 07985 379 890 elan.davies@menterabusnes.co.uk
Rheoli newid: O wartheg sugno i wartheg biff o'r diwydiant laeth	14:00 - 17:00 12/08/2020	Cefn Llan, Llangammarch, Powys LD4 4AA	Elan Davies 07985 379 890 elan.davies@menterabusnes.co.uk
Gwella rheolaeth pridd a da byw i gynyddu gallu'r pridd i storio carbon a lleihau ôl troed carbon y fferm	14:00 - 17:00 13/08/2020	Hendre Ifan Goch, Glynogwr, Melin Ifan Ddu, Pen-y-bont ar Ogwr CF35 6EN	Elan Davies 07985 379 890 elan.davies@menterabusnes.co.uk
Gwella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd oddi ar y borfa a gwella ffrwythlondeb y fuches sugno	14:00 - 17:00 14/08/2020	Fferm Rhiwaedog, Rhos-y-Gwaliau, Y Bala, Gwynedd LL23 7EU	Gwawr Llewelyn Hughes gwawr.hughes@menterabusnes.co.uk
Sicrhau yr allbwn gorau o'r ddiadell	18/08/2020	Pendre, Llanfihangel y Creuddyn, Aberystwyth, Ceredigion SY23 4LB	Lliffon Davies 07399 849 148 lliffon.davies@menterabusnes.co.uk
Iechyd a pherfformiad defaid a rheoli glaswelltir	14:00 - 17:00 20/08/2020	Glanmynys, Llanymddyfri, Sir Gâr SA20 0EU	Lliffon Davies 07399 849 148 lliffon.davies@menterabusnes.co.uk

Rhagor o wybodaeth i'w gael ar ein gwefan: www.llyw.cymru/cyswlltffermio

Amserlen Digwyddiadau

Gwneud Treth yn Ddigidol - Opsiynau	
12/02/20 18:00-20:00	TyGlyn Aeron, Ciliau Aeron, Llambed, Ceredigion SA48 8DD
Y Ganolfan Wasanaeth - 08456 000 813 farmingconnect@menterabusnes.co.uk	

Colledion Ŵyna - Rhan 2: Colledion ar ôl ŵyna - rhwng ŵyna a diddyfnu	
12/02/20 11:30-14:30	Gwesty yr Eryrod, Llanrwst, Conwy LL26 0LG
Milfeddygon Wern Vets: 01824 703 066	

Gwneud Treth yn Ddigidol - Opsiynau	
13/02/20 18:00-20:00	The Plough Inn, Rhosmaen, Llandeilo, Sir Gâr SA19 6NP
Y Ganolfan Wasanaeth - 08456 000 813 farmingconnect@menterabusnes.co.uk	

Colledion Ŵyna - Rhan 2: Colledion ar ôl ŵyna - rhwng ŵyna a diddyfnu	
13/02/20 11:30-14:30	The Black Lion, Swan Square, Llanfair Talhaiarn, Abergelle LL22 8RY
Milfeddygon Wern Vets: 01824 703 066	

Gweithdy Lleihau Cloffni yn y Fuches Laeth	
13/02/20 18:30-21:30	The Cottage Inn, Pentrefelin, Llandeilo, Sir Gâr SA19 6SD
Milfeddygon Prostock Vets: 01267 233 266	

Gweithdy Cyfryngau Cymdeithasol	
17/02/20 14:00-16:00	Nant-y-Ffin Hotel, Llandisilio, Clynderwen, Sir Benfro SA66 7SU
Y Ganolfan Wasanaeth - 08456 000 813 farmingconnect@menterabusnes.co.uk	

AHDB/NFU Cymru/Cyswllt Ffermio 'Ffermio trwy gyfnodau o her a newid'	
18/02/20 10:00-14:00	Vale Resort, Parc Hensol, Bro Morgannwg CF72 8JY
Dr Delana Davies - 07811 261 628	

Gweithdy Lleihau Cloffni yn y Fuches Laeth	
20/02/20 18:30-21:30	The Whitehall Inn, Llanymddyfri, Sir Gâr SA20 0PU
Milfeddygon Prostock Vets: 01267 233 266	

Creu gwefan	
24/02/20 14:00-16:00	Glanyrafon Arms, Llandysul, Ceredigion SA44 4ER
Y Ganolfan Wasanaeth - 08456 000 813 farmingconnect@menterabusnes.co.uk	

Sut all arallgyfeirio i dwrsitiaeth fod o fudd i'ch busnes?	
24/02/20 19:30-21:30	M-Sbarc, Gaerwen, Ynys Môn LL60 6AG
25/02/20 19:30-21:30	Castle Hotel, Llanymddyfri SA20 0AP
26/02/20 19:30-21:30	Elephant & Castle Hotel, Y Drenewydd SY16 2BQ
Y Ganolfan Wasanaeth - 08456 000 813 farmingconnect@menterabusnes.co.uk	

TB Gwartheg	
25/02/20 19:30-22:30	Neuadd y Pentref Llanarth, Ffordd Groesonen, Llanarth, Sir Fynwy NP15 2AU
Milfeddygon Prostock Vets: 01267 233 266	

Lleihau Mastitis yn y Fuches Laeth	
26/02/20 11:30-14:30	Brookhouse Mill, Dinbych, Sir Ddinbych LL16 4RD
Milfeddygon Wern Vets: 01824 703 066	

Gwneud Treth yn Ddigidol - Opsiynau	
26/02/20 18:00-20:00	Lantra, Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanfair-ym-Muallt, Powys LD2 3SY
Y Ganolfan Wasanaeth - 08456 000 813 farmingconnect@menterabusnes.co.uk	

Cymhorthfa Marchnata ac Arallgyfeirio	
04/03/20 09:00-17:00	Llanfair-ym-Muallt
Delyth Jones - 01970 600 174 delyth.mair.jones@menterabusnes.co.uk	

Colledion Ŵyna - Rhan 2: Colledion ar ôl ŵyna - rhwng ŵyna a diddyfnu	
05/03/20 18:30-21:30	The Cottage Inn, Pentrefelin, Llandeilo, Sir Gâr SA19 6SD
Milfeddygon Prostock Vets: 01267 233 266	

Lleihau Mastitis yn y Fuches Laeth	
18/03/20 19:30-22:30	The Cross Inn, Clarboston Road, Hwlfordd, Sir Benfro SA63 4UL
Oak Veterinary Group: 01437 731 327	